



Polisi Diwygiedig Anghenion Dysgu Ychwanegol / Mwy Abl a Thalentog YSGOL LLANDYGAU

A. Egwyddorion ac Amcanion

Egwyddorion

Mae Ysgol Llandygai yn anelu at :-

- sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.
- gydweithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol ac eraill perthynol i'r plentyn a'i anawsterau.
- weithio'n agos gyda rhieni er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol i helpu'r disgybl.
- roi pwyslais ar gyfraniad y disgybl ac yn rhoi pob ystyriaeth i'w farn.
- sicrhau ymateb ysgol gyfan i helpu'r disgybl.

Amcanion

- Sicrhau bod cyfundrefn yn bodoli yn yr ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd ag anawsterau a all fod yn llesteirio ei addysg.
- Adnabod disgyblion Mwy Galluog a Thalentog a'u cefnogi.
- Casglu gwybodaeth ynghyd gan athrawon, rhieni, y disgybl ac eraill i sicrhau y ceir y ddealltwriaeth orau am natur anawsterau'r plentyn.
- Sicrhau y caiff y ddarpariaeth angenrheidiol ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig.
- Ceisio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth.

Enw'r Cydlynnydd ADY

Y Cydlynnydd ADY yw **Mrs Lowri W. Pritchard** a'r llywodraeth wraig Ddynodedig yw **Mrs Rhian Llewelyn Jones** ers Hydref 2012

B. Gwybodaeth am y ddarpariaeth ADY

Y trefniadau ar gyfer cydgordio'r ddarpariaeth

Y Cydlynnydd sydd yn gyfrifol am gydgordio'r gwasanaeth o fewn yr ysgol.
Mae'r Cydlynnydd yn atebol i'r Tîm Rheoli/ Pennaeth ac i'r Llywodraethwyr.

Cyfrifoldebau'r Cydlynnydd yw:

- gweithredu'r polisi o ddydd i ddydd
- cydgysylltu a chydweithio gydag athrawon a'u cynghori am y ddarpariaeth.
- cydgysylltu a rhieni disgyblion ADY
- cydgysylltu'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag ADY
- monitro datblygiad disgyblion
- cadw cofnodion ADY yr ysgol a goruchwylio cofnodion pob disgybl ag ADY yn rheolaidd
- cydgysylltu ag asiantaethau cynnal eraill, e.e., addysg, iechyd, cymdeithasol, gwirfoddol
- sicrhau adolygu'r trefniadau'n rheolaidd
- bwydo anghenion hyfforddiant i mewn i gynllun datblygu'r ysgol.

Trefniadau Mynediad

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion ag ADY i mewn i'r ysgol drwy:

- gydweithio gyda'r asiantaethau cynnal wrth dderbyn disgybl o'r newydd

- fynychu cyfarfodydd swyddogol, fel adolygiadau datganiadau, e.e., trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd, symud o ysgol arbennig
- drafodaethau a derbyn gwybodaeth, e.e., symud o ysgol i ysgol
- drafod â rhieni
- ymdrin â'r cais mewn dull cadarnhaol ac o fewn yr amgylchiadau sy'n bodoli o fewn yr ysgol ar yr adeg dan sylw
- ddarparu cefnogaeth sensitif a phriodol er mwyn sicrhau y bydd y disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol yn unol â Deddf Hawliau'r Anabl

Arbenigedd ADY ac unrhyw unedau arbennig

Sicrheir y darperir cyfleoedd i staff dderbyn hyfforddiant ym maes ADY.

C. Gwybodaeth ar adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag ADY

Yn yr ysgol hon, yr ydym yn canfod anghenion addysgol yn fuan trwy:

- gael tystiolaeth o arsylwadau ac asesiadau athrawon gan gofio fod pob athro yn athro ar blant ADY
- edrych ar berfformiad y disgyblion yn erbyn disgrifiadau lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- sicrhau fod dulliau sgrinio ac asesu safonedig yn wybyddus i bob athro. Defnyddir Profion Darllen Cymru Gyfan, All Wales, Profion Sillafu Young a Phroffion Mathemategol NFER.
- fod yn agored a pharod i ymateb pan fo rhieni yn mynegi pryder, pryder y disgybl ei hun neu bryderon gan weithwyr proffesiynol eraill.
- Mae disgyblion MAT cael eu hadnabod o ganlyniad i asesiadau parhaus gan yr athrawon a hefyd yn dilyn profion ar ddiwedd Tymor yr Haf. Mae eu CAU wedi eu cynllunio i ddatblygu ac ymestyn eu cryfderau mewn pynciau neu rannau o bynciau penodol. Bydd y CAU yn cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn.

Trefniadau ar gyfer darparu mynediad i ddisgyblion ag ADY i gwricwlwm eang a chytbwys, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol

Bydd pob disgybl ag ADY yn dilyn y cwricwlwm gyda disgyblion eraill. Os cyfyd anawsterau, yna:

- i. rhoddir sylw unigol o fewn y dosbarth
- ii. Paratoir gwaith unigol gan yr athrawon dosbarth
- iii. Trefnir cydweithio â phlant eraill
- iv. Ymgynghorir gydag asiantaethau cynhaliol
- v. cynhelir trafodaethau gyda rhieni
- vi. Llunnir cynllun addysg unigol i ddisgyblion o fewn Cymorth gan yr Ysgol, Cymorth gan yr Ysgol a Mwy ac ar gyfer disgyblion sydd ar Ddatganiad.

FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD 2015

Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Mae'r FfLIRh yn cynnwys pob dysgwr. Lluniwyd cyfres o ddisgwyliadau sy'n cynnwys pob dysgwr ac a fydd yn sicrhau bod y rhai sydd ag ADY wedi'u cynnwys ym mhob elfen. Mae dilyniant yn cael ei nodi o'r sgiliau rhagflaenol cynnar a ddisgrifir yn fanwl ym map llwybrau *Ar Drywydd Dysgu*. Mae'r FfLIRh yn amlinellu sut y mae sgiliau dysgwyr yn cael eu mireinio a'u hestyn wrth iddynt symud tuag at y safonau disgwyliedig ar gyfer y dosbarth Derbyn. Ni fydd rhai elfennau sgiliau yn dod i'r amlwg tan gyfnod diweddarach yn y FfLIRh. Mewn achosion o'r fath, mae'r celloedd perthnasol yn y FfLIRh wedi'u lliwio'n llwyd i ddangos hyn.

Bydd athrawon, dysgwyr, rhieni a gofawyr yn defnyddio'r datganiadau dilyniant hyn mewn ffyrdd tebyg i'r rhai a ddisgrifir uchod. Mae'r FfLIRh hefyd yn disgrifio continwmm o ddatblygiad a gall dysgwyr symud ymhellach neu'n gyflymach mewn rhai agweddau nag eraill, gyda chyflawniadau'n cwmpasu sawl blwyddyn. Gall hyn fod yn arbennig o gymwys i ddisgwyr sydd ag ADY, yn enwedig pan fydd anabledd yn atal cyflawni eitemau penodol. Yn achos dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai ysgolion gynnig mwy o her. Gall lefel yr anhawster gael ei chodi drwy estyn ehangder, dyfnder a chymhlethdod y tasgau.

Y Profion statudol yn ogystal â'r FfLIRh a'r asesiadau ffurfiannol, naratif yn ei erbyn, rydym yn cyflwyno profion darllen a rhifedd cenedlaethol.

Bydd y rhain yn darparu data crynodol, wedi'u casglu a'u dadansoddi'n genedlaethol a'u defnyddio'n rhan o'r model atebolrwydd cenedlaethol. Bydd data profion yn rhoi dangosyddion clir i athrawon o ddatblygiad sgiliau a chynnydd, a bydd yn gwneud cyfraniad pwysig i'r dystiolaeth y mae athrawon yn ei defnyddio i lunio barn flynyddol am y sgiliau y mae dysgwyr wedi'u caffael.

Bydd asesu yn erbyn y FfLIRh a deilliannau profion yn cynnig safbwynt gwahanol ar gynnydd dysgwyr. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn asesu agweddau ychydig yn wahanol ar yr un sgiliau a bod un yn fraslun neu'n olwg crynodol tra bydd y llall yn defnyddio ystod lawer ehangach o dystiolaeth. Pan fydd yn ymddangos bod canlyniadau profion yn gwrth-ddweud deilliannau yn erbyn y FfLIRh neu asesiadau eraill, y peth pwysicaf fydd i athrawon ystyried y rhesymau dros unrhyw wahaniaeth a rhoi sylw priodol iddynt.

Sut mae disgyblion ag ADY yn cael eu cynnwys

Bydd yr ysgol yn darparu cefnogaeth sensitif a phriodol er mwyn sicrhau y bydd y disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol, fel y bo modd. Dilynir Côt Ymarfer Comisiwn Hawliau'r Anabl (Ysgolion) a'r Ddeddf AAA ac Anabledd 2001.

Adnoddau

Gwariant GAD 2016-17

Dyraniad - £34,900

Maes	Gwariant
Staffio Cyfnod Allweddol Dau i roi ar waith rhaglenni ymyrraeth amrywiol: Cymhorthydd 1: 8.75awr yn ychwanegol i oriau gan y sir. Cymhorthydd 2: 28.75 awr. Cymhorthydd 3: 25 awr.	£24,192
Rhaglen ymyrraeth Headsprouts	£1,000
Class Act gan gwmni Anomaly – hybu gwaith llafar / llythrennedd	£2,200
Cyfrifiaduron newydd i gefnogi'r rhaglen Headsprouts	£2,417
Llyfrau darllen -	£3291
Iris Connect – arsylwi gwersi i gau'r bwlch	£1,800
Cyfanswm	£34,900

Mae cyfradd helaeth o'r GAD yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyflogi cymorthyddion arbenigol fydd yn cefnogi a thracio cynnydd disgyblion drwy ymyrraethau amrywio. Mae peth o'r GAD wedi ei glustnodi ar gyfer buddsoddi mewn cyfarpar ac adnoddau arweiniol. Bydd tracio gofalus a thrylwyr ar waith er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Anelir i roi cymorth ADY yn bennaf mewn Llythrennedd a Rhifedd .

Mae trefniadau adolygu cynnydd y disgyblion ac fe wneir hyn trwy adolygiadau tymhorol a thrwy drafodaethau manwl rhwng y rhieni a'r athrawon gan roi pwyslais ar gyfraniad y disgybl.

Defnyddir ystafell newydd yn y rhodfa (ystafell Gerdd/ AAA), y Llyfrgell a chornel y neuadd, i addysgu plant unigol/grwpiau gan Athrawon Arbennigol. Yn yr ystafell yng nghornel y Neuadd y cedwir holl ddogfennaeth a gwybodaeth ADY yn ganolog. Gan fod safle'r ysgol ar un lefel (ar wahan i'r caban symudol) ag ychydig iawn o stepiau, ni fu'n angenrheidiol i addasu'r adeilad hyd at fis Awst 2013. Ym mis Awst 2013 gosodwyd ramp i mewn i'r Caban ac hefyd ramp allanol i mewn i'r brif adeilad trwy'r fynedfa allanol cyferbyn â'r Dosbarthiadau B11/2 a B14. Gosodwyd canllawiau ar hyd rhai waliau a sicrhawyd bod y grisiau i'r llwyfan yn addas fel bod pob disgybl yn gallu cael mynediad i'r llwyfan.

Trefniadau ar gyfer ystyried cwynion am y ddarpariaeth ADY

Gall rhiant sydd â chwyn gysylltu â'r canlynol yn y lle cyntaf:

- y Cydlynnydd ADY
- y Pennaeth

- cynrychiolwyr y rhieni ar y Llywodraethwyr
- y Llywodraethwraig benodedig Anghenion Dysgu Ychweanegol

Os nad yw'r ffyrdd hyn yn cynnig ateb i'r gŵyn, yna gall y rhiant ddilyn y sianelau isod:

Mae'r ddogfen *Trefniadau lleol ar gyfer ystyried cwynion a wneir dan Adran 23 y Ddeddf Diwygio Addysg* ar gael ym mhob ysgol.

CH. Gwybodaeth am bolisiau staffio a phartneriaeth â chyrrff allanol
Trefniadau'r ysgol ar gyfer hyfforddiant mewn swydd ADY

- y Cydlynnydd i adnabod anghenion hyfforddi gan fwydo i mewn i'r Cynllun Datblygu
- gall yr ysgol gyflwyno cais i Bwyllgor HMS y dalgylch

Trefniadau ar gyfer partneriaeth â rhieni

Mae'r ysgol yn cydnabod y dylanwad holl bwysig sydd gan rhieni ar gynnydd addysgol eu plant. Er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol anogir cydweithrediad gyda rhieni trwy:

- talu sylw proffesiynol i bryderon rhieni gan eu trafod am amser rhesymol ac ar yr amser cyfleus cyntaf
- cysylltu â'r rhieni pan benderfynir cymryd camau i ddelio ag anawsterau dysgu trwy Weithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy gan ofyn am eu barn a'u sylwadau
- rhoi lle amlwg i gymorth y rhiant lle bo hynny'n briodol
- rhoi sylw proffesiynol i farn y rhieni wrth lunio cynlluniau addysg unigol
- rhannu gwybodaeth am ffynonellau cymorth
- sicrhau bod y polisi hwn, yn ei gyfanrwydd, ar gael i'r rhieni ei ddarllen
- cynnwys rhieni mewn adolygiadau rheolaidd ar eu plentyn
- darparu adran yn Llawlyfr yr Ysgol yn trafod ADY.

Cysylltiadau ag ysgolion prif-lif eraill ac ysgolion arbennig, gan gynnwys y trefniadau pan fydd disgyblion yn newid neu'n gadael ysgol

Mae gan yr ysgol gysylltiad agos ag ysgolion y dalgylch ac yn cyd-drafod â hwy pan fydd disgybl yn:

- symud o ysgol brif-lif i ysgol brif-lif arall - cysylltu am fanylion,
- symud o ysgol gynradd i uwchradd - trosglwyddo gwybodaeth, cyfarfodydd adolygu
- symud i ysgol arbennig neu yn ôl i'r prif-lif - trafodaethau rhwng yr ysgolion a'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

Yr ydym hefyd yn cydweithio gydag ysgolion ac yn cael hyfforddiant dalgylch / sirol.

Cysylltiadau â gwasanaethau iechyd cynhaliol ac asiantaethau

Mae'r gwasanaeth cefnogi yn yr Awdurdod ar gael drwy'r Cyd-Bwyllgor AAA. Darperir gwasanaeth gan:

i. *y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol*

ii. *Athrawon arbenigol - nam ar y golwg, nam ar y clyw, nam corfforol, y gwasanaeth cyn-ysgol, cynnal ymddygiad*

iii. *Gwasanaethau Iechyd*

Gellir cyfeirio at y nyrs ysgol - yn ymwelydd rheolaidd ac yn bwynt cyswllt â phersonél eraill. Hefyd gellir cyfeirio disgyblion, gyda chaniatad y rhieni, trwy'r Nyrs Ysgol i gael eu gweld gan y Paediatrydd Cymunedol. Yn ogystal, gellir cysylltu'n ffurfiol gyda'r Paediatrydd Cymunedol, gyda chaniatâd y rhieni, i ofyn am wybodaeth berthnasol i addysg y plentyn.

iv. *Gwasanaethau Cymdeithasol*

Y pwynt cyswllt cyntaf yw'r Gwasanaeth Lles Addysg er mwyn cyfeirio'r ysgol tuag at y man priodol. Hefyd, mae cyswllt gydag aelodau o'r Gwasanaeth sydd wedi eu datblygu dros nifer o flynyddoedd. Cysylltir yn uniongyrchol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar unrhyw adeg gyda materion brys.

v. *Gwasanaeth Lles Addysg*

Mae'r Swyddog Lles yn ymwelydd rheolaidd â'r ysgol a defnyddir y swyddog i ymweld â chartrefi lle bo angen. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig arweiniad a chymorth gan gyfeirio'r ysgol at asiantaethau eraill.

vi. *Cyrff Gwirfoddol*

Cynhwysir rhestr o ffynonellau cymorth yng nghefn y ffeil: Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002.

vii. *Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc [CAMHS]*

viii. *Gyrfa Cymru*

ix. *Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant*

Mabwysiadwyd y Polisi: Gwanwyn 2013

Adolygwyd y Polisi: Gwanwyn 2014, Gwanwyn 2015

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Parch J Matthews

Pennaeth: C Hughes

Adolygwyd : Gwanwyn 2016

Cadeirydd : Parch J Matthews

Pennaeth mewn Gofal : E Morris

Adolygwyd : Gwanwyn 2017

Cadeirydd : Parch J Matthews

Pennaeth: Mr Elfed Morgan Morris